

Datgelu Collfarnau heb Ddarfod

Enw'r Polisi	Datgelu Collfarnau heb Ddarfod
Dyddiad Cwblhau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	Tachwedd 2019
Cyflwynwyd i'w Gymeradwyo	Tachwedd 2019
Cymeradwywyd Gan	Y Grŵp Diogelu
Dyddiad Cymeradwyo	Tachwedd 2019
Dyddiad Adolygu	Tachwedd 2022
Awdur	Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr

Cyflwyniad

Mae'r coleg yn ymrwymedig i drin pob un o'i ddysgwyr yn deg ac mae'n croesawu ceisiadau gan ystod eang o unigolion, gan gynnwys y rheiny sydd â cholffarnau troseddol. Mae'r coleg yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn weithredol. Bydd y coleg yn dewis unigolion ar gyfer cyrsiau ar sail eu sgiliau, eu cymwysterau a'u profiad ac nid yn ôl eu cefndir na'u hamgylchiadau personol. Ni fydd collfarn droseddol o reidrwydd yn rhwystro rhywun rhag astudio yn y coleg.

Fodd bynnag, wrth reoli ei gymuned o ddysgwyr, mae'r coleg yn ymwybodol o'i ddyletswydd gofal i'w ddysgwyr a'i staff ac, mewn amgylchiadau priodol, i'r gymuned ehangach, i weithredu'n rhesymol i amddiffyn eu hiechyd, diogelwch a'u lles. O ganlyniad, mae'r coleg yn gofyn i bob ymgeisydd ddatgelu collfarnau troseddol sydd heb ddarfod (ac eithrio troseddau moduro bychain), fel y'u disgrifir yn y Polisi Datgelu Collfarnau heb Ddarfod hwn. Mae Datgelu yn amod cofrestru ac ailgofrestru hefyd, a bydd gofyn i'r dysgwyr ddatgelu collfarnau heb ddarfod ar ffurflenni cais pryd bynnag y bydd hynny'n briodol. Sylwch y bydd yn rhaid i ymgeiswyr sy'n dilyn cyrsiau a restrir yn Atodiad Un wneud cais am ddatgeliad DBS, a fydd yn datgelu unrhyw rybuddion gan yr heddlu neu gollfarnau p'un a ydynt wedi darfod ai peidio. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Canllawiau DBS y Coleg sydd ar gael yn Y 4 Polisi.

Mae'r Polisi hwn yn egluro sut mae'r coleg yn ymdrin â gwybodaeth ynghylch collfarnau heb ddarfod, a sut mae'r coleg yn ystyried a yw gwybodaeth fel hynny'n anghydnaws â chynnig lle i unigolyn ar gwrs, neu fod yr unigolyn yn derbyn cynnig neu barhau ar gwrs. Mae hefyd yn disgrifio'r camau y gallai'r coleg eu gweithredu petai unigolyn yn methu â chydymffurfio â gofynion datgelu'r coleg.

Pwrpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n gwneud cais am le a/neu sy'n cael cynnig lle ar gwrs llawn amser neu Hyfforddeiaeth, gan gynnwys y rheiny a restrir yn Atodiad Un. Sylwch y bydd unigolion sy'n gwneud cais ar gyfer unrhyw un o'r cyrsiau a restrir yn Atodiad Un ac sy'n cofrestru arnynt, yn gorfod dilyn proses Cais am Ddatgeliad DBS hefyd. Dylai'r dysgwyr wybod hefyd os byddant yn cael collfarn droseddol yn ystod eu cwrs astudio, y dylid ei ddatgelu ar unwaith.

Risg

Bydd unrhyw risg cysylltiedig yn cael ei liniaru gan y polisi hwn a'r weithdrefn hon. Os na chedwir at y polisi, yna ni fydd pryderon nac achosion troseddol yn cael eu hymchwilio iddynt, gan arwain o bosibl at beidio â bodloni cyfrifoldebau cyfreithiol Diogelu.

Gwahaniaethodd Deddf Adsefydlu Troseddolwyr 1974 rhwng collfarnau wedi darfod a rhai heb ddarfod.

Os dedfrydwyd dysgwr erioed am drosedd lle rhoddwyd dedfryd hwy na 4 blynedd (waeth pa mor hir oedd y cyfnod a dreuliodd yn y carchar), ni all y gollfarn hon fyth fod 'wedi darfod' ac felly mae'n parhau heb ddarfod.

Nid oes angen i ymgeiswyr am gyrsiau a dysgwyr ar gyrsiau, nad ydynt wedi eu rhestru yn Atodiad Un, ddatgelu collfarnau sydd wedi darfod. Fodd bynnag, gofynnir i unigolion ddatgelu collfarnau heb ddarfod yn unol â'r Polisi hwn er mwyn cynorthwyo'r coleg i gyflawni ei ddyletswydd gofal (gweler y Cyflwyniad uchod).

Dylai ymgeiswyr a dysgwyr ar gyrsiau sydd â chyhuddiadau dan ystyriaeth, ac a fyddai'n gallu arwain at ddedfryd droseddol, drafod gyda'r Swyddog Diogelu sut fyddai hynny'n effeithio arnynt yn eu swydd ddewisol.

Cyfrifoldebau

Camau Trefniadol

Mae'n ofynnol i bob unigolyn ddatgelu collfarnau heb ddarfod:

- ar eu ffurflen gais
- wrth gofrestru
- wrth ail-gofrestru

Os datgelir collfarn droseddol heb ddarfod, neu fod y coleg yn cael gwybod am hynny mewn ffordd arall, bydd Pennaeth y Gwasanaethau Myfyrwyr yn gofyn i'r unigolyn i lenwi Ffurflen Ddatgelu i roi rhagor o wybodaeth i'r coleg am y drosedd a manylion cyswllt unrhyw drydydd parti perthnasol arall e.e. Swyddog Cyfiawnder Ieuencid / Prawf. Atodir copi o Ffurflen Ddatgelu'r Coleg yn Atodiad Dau.

Wedi ystyried y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd ar unrhyw ffurflen ddatgelu, gall y Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr ofyn i'r unigolyn roi gwybodaeth ychwanegol, neu bydd yn cysylltu â thrydydd partion perthnasol, e.e. swyddog prawf, meddyg ac ati. Yna, bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau gyda'r dysgwyr (gweler Atodiad 3)

Yna, bydd y wybodaeth hon a ddatgelwyd yn cael ei defnyddio i benderfynu a yw'r unigolyn yn risg annerbyniol i iechyd, diogelwch a/neu ei les ei hun a/neu eraill (gan gynnwys dysgwyr a staff). Os bydd Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr yn penderfynu bod pryder o'r fath, yna bydd yn cyfeirio'r mater at y Panel Apêl Datgelu, a fydd yn cynnwys y staff a ganlyn:

- Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Dirprwy Brif Weithredwr
- Y Pennaeth Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm priodol

Bydd y Panel yn cynnal asesiad risg ac yn penderfynu a yw'r unigolyn yn peri risg annerbyniol ai peidio i iechyd, diogelwch a/neu lesiant eu hunain a/neu eraill (gan gynnwys dysgwyr a staff).

Fel rhan o'r broses o gynnal asesiad risg, bydd natur y pryder yn cael ei roi i'r unigolyn ar bapur, gyda gwahoddiad i'r unigolyn ymateb iddo. Gall yr unigolyn ddewis ymateb yn ysgrifenedig neu ddod i gyfarfod Panel Apêl Datgelu. Os bydd yr unigolyn yn dewis dod i gyfarfod y Panel Apêl Datgelu, gall gael cwmni ffrind neu berthynas.

Efallai bydd y Panel Apêl Datgelu yn ceisio cynnwys trydydd partion perthnasol fel swyddog prawf neu ymarferydd meddygol.

Wrth gynnal unrhyw asesiadau risg, gall y Panel Apêl Disgyblu ystyried un neu ragor o'r agweddau a ganlyn fel bo'n briodol yn ôl amgylchiadau'r achos (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- natur ac amgylchiadau'r drosedd
- yr amser sydd wedi mynd heibio ers y drosedd.
- oed ac amgylchiadau'r unigolyn adeg y drosedd
- y gosb a roddwyd am y drosedd
- p'un ai trosedd unigol ydoedd neu drosedd a ailadroddwyd
- yr amgylchedd(au) penodol y byddai'r unigolyn yn cael ei roi ynddynt petai yn cael lle ar gwrs e.e. mae trosedd rhywiol o ran ei natur yn debygol o gael effaith ar ymgeisydd sy'n dymuno cofrestru ar gwrs lle byddai'n cael cyswllt â phlant a/neu oedolion diamddiffyn, neu lle byddai derbyn ymgeisydd yn gallu rhoi dysgwyr a/neu staff mewn perygl oherwydd bod gan yr ymgeisydd hanes o drais neu unrhyw fath arall o gamdriniaeth tuag at eraill.

Os bydd unigolyn yn gwrthod datgelu gwybodaeth ychwanegol pan ofynnir am hynny a/neu'n gwrthod rhoi caniatâd i'r coleg gysylltu â thrydydd parti am wybodaeth, bydd y coleg yn penderfynu ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddo.

Penderfyniad

Wedi ystyried y wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i'r weithdrefn y cyfeiriwyd ati yn adran 4 uchod, gall y Panel Apêl Datgelu wneud un o'r argymhellion a ganlyn.

Bydd yr unigolyn:

- Yn cael cynnig lle ar gwrs yn ddiamod
- Yn cael cynnig lle gydag amodau
- Ddim yn cael cynnig lle
- Yn cael caniatâd i aros ar y cwrs
- Yn cael caniatâd i aros ar y cwrs gydag amodau
- Yn cael ei wahardd neu ei ddiarddel o'r cwrs.

Bydd yr unigolyn yn cael gwybod am benderfyniad y Panel Apêl Datgelu, gyda'r rhesymau drosto, ar bapur fel rheol o fewn tri diwrnod gwaith o wneud y penderfyniad.

Apêl

Dylai ymgeiswyr newydd a dysgwyr presennol sy'n dymuno apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod y broses hon, nodi'r rhesymau dros apelio yn ysgrifenedig a'u hanfon at y Prif Swyddog Gweithredol a'r Dirprwy Brif Weithredwr o fewn deg diwrnod gwaith o dderbyn penderfyniad y Panel Apêl Datgelu. Mae'n rhaid i'r apêl egluro'r rhesymau dros yr apêl yn glir e.e. nad ddilynwyd gweithdrefn y coleg a nodir yn y Polisi hwn, neu fod y penderfyniad a wnaed yn afresymol neu fod tystiolaeth bwysig newydd wedi dod i'r golwg

Bydd yr unigolyn yn cael gwybod am y penderfyniad gyda rhesymau drosto, lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn fel rheol yn digwydd o fewn tri diwrnod gwaith o wneud y penderfyniad.

Methu â datgelu collfarn droseddol berthnasol

Gall y coleg newid neu dynnu cynnig o le yn ôl neu derfynu cofrestriad dysgwyr neu dynnu gwasanaethau neu gyfleusterau (fel cyfleusterau llyfrgell) yn ôl os yw'n penderfynu bod unigolyn:

- Wedi gwneud cais neu ddatganiad camarweiniol, ffug neu dwyllodrus i'r coleg
- Heb ddatgelu gwybodaeth berthnasol i'r coleg
- Wedi darparu dogfennau wedi ffugio p'un ai wrth wneud cais neu yn ystod y cwrs.

Cyfathrebu a Dwyieithrwydd

Os bydd myfyrwyr yn dymuno, gellir cynnal trafodaethau yn Gymraeg a rhoddir cymorth priodol i wneud hynny. Bydd pob proses ysgrifenedig, lle bo yn ysgrifenedig neu ar-lein, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Darperir dehonglydd iaith Arwyddion Prydain (BSL) lle bo'n briodol.

Bydd Swyddog Diogelu'r Coleg yn casglu'r holl adroddiadau ac unrhyw gynlluniau gweithredu i'w cyflwyno i gyfarfodydd Grŵp Diogelu'r Coleg.

Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DDD), y coleg yw rheolwr data unrhyw ddata personol neu ddata personol sensitif (gan gynnwys unrhyw wybodaeth am gollfarnau troseddol blaenorol, honiadau presennol ac ati) y mae'r ymgeisydd neu'r myfyriwr ac unrhyw drydydd parti yn ei ddarparu. Ymdrinnir â gwybodaeth bersonol a gyflwynir fel rhan o'r broses ymgeisio/cofrestru/ailgofrestru, yn unol â'r datganiad diogelu data sydd ar y ffurflen gais.

Mewn rhai amgylchiadau, gall y coleg ofyn am wybodaeth ychwanegol am y collfarnau troseddol gan yr ymgeisydd i werthuso'r cais yn fwy manwl. Er mwyn cydymffurfio â'r DDD, gall y coleg ofyn am ganiatâd ysgrifenedig i gasglu a phrosesu'r wybodaeth ychwanegol hon am y collfarnau troseddol, petai angen rhagor o wybodaeth ar y coleg ynghylch hyn.

Lle bydd caniatâd yn cael ei roi, bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r collfarnau troseddol yn cael ei phrosesu at ddibenion gwerthuso cais neu gofrestrriad neu gofrestrriad parhaus y dysgwyr yn unig, yn unol â'r polisi hwn neu fel arall, yn ôl gofynion, neu'r hyn a ganiateir, gan y gyfraith dan y DDD.

Os na fydd caniatâd yn cael ei roi, bydd y coleg yn dychwelyd y cais at y dysgwyr ar unwaith oherwydd ni fydd yn cael ei ystyried yn unol â'r Polisi hwn nes bod y caniatâd hwnnw'n cael ei roi. Gall peidio â rhoi caniatâd olygu na fydd y coleg yn gallu prosesu'r cais mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, neu o gwbl, neu gall arwain at derfynu'r cofrestriad.

Bydd unrhyw wybodaeth a roddir i'r coleg o dan y Polisi hwn yn cael ei chadw yn unol â'i oblygiadau dan y DDD a Pholisi Cadw'n Ddiogel y Coleg.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhawyd y Polisi ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Y Broses Ymgynghori

Cynhelir ymgynghoriad bob tair blynedd neu os bydd deddfwriaeth newydd yn cael ei gymeradwyo ynghylch adsefydlu troseddwy. Rhoddir cyfle i sefydliadau allanol gyflwyno sylwadau ar y polisi hwn, e.e. Timau Troseddau Ieuenctid, y Gwasanaeth Prawf. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Grŵp Diogelu.

Oes y Ddogfen

Gweler y dudalen flaen i gael gwybodaeth.

Cynllun Gweithredu

Mae'r Polisi hwn a'r weithdrefn hon eisoes yn weithredol. Darperir hyfforddiant i'r staff perthnasol fel rhan o broses sefydlu yn yr adran. Bydd y polisi hwn ar gael i fyfyrwyr a byddant yn cael eu harwain trwy'r weithdrefn pan fo angen hynny.

Prif Ddangosyddion Perfformiad a Safonau / Key Performance Indicators & Standards

Bydd Swyddog Diogelu'r Coleg yn casglu'r holl adroddiadau ac yn cyflwyno ystadegau i gyfarfodydd Grŵp Diogelu'r Coleg. Nid yw'n ymarferol gosod targedau perfformiad.

Cyfeiriadau

Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
Gweithdrefn DBS
Deddf Diogelu Data 2018

Atodiad 1

Rhestr o'r cyrsiau y mae Canllawiau'r DBS yn berthnasol iddynt

Mynediad at Addysg Uwch
Gofal Plant
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Chwaraeon
Hyfforddi Athrawon
Hyfforddeiaethau
Camau at Waith
Gwirfoddoli

Atodiad 2

Ffurflen Ddatgelu a Chaniatâd

FFURFLEN DDATGELU

A wnewch chi roi'r wybodaeth ganlynol am bob collfarn heb ddarod sydd gennych:

- Y math o drosedd
- Dyddiad y gollfarn
- Eich oed pan gyflawnwyd y drosedd
- Eglurhad byr am amgylchiadau'r drosedd
- Y wlad lle cyflawnwyd y drosedd

Y math o ddedfryd a osodwyd gan gynnwys, er enghraifft, carchar, dirwy, gorchymyn goruchwylio, ac ati, a hyd y ddedfryd.

Faint o amser sydd cyn i'r gollfarn ddarod?

Manylion cyswllt unrhyw drydydd parti perthnasol, fel swyddog prawf neu weithiwr cymorth

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl at Swyddog Diogelu Coleg Cambria, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a nodwyd yn y llythyr. Rhowch y geiriau "Preifat a Chyfrinachol" ar yr amlen.

Atodiad 3

Y Broses

